O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2244 (Cy. 249)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Ffin Sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd i Gylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed 29 Awst 2012

Yn dod i rym 4 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Ffin Sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd i Gylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 4 Medi 2012 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A458 rhwng ffin sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd a Chylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng yn Sir Powys, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.